# Cronfa Ysgolion Caerdydd a'r Fro

**Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Nod Cronfa Ysgolion Caerdydd a'r Fro yw cefnogi'r canlynol:


- prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant o'r blynyddoedd cynnar i 18 oed
- prosiectau allgyrsiol yn yr ysgol sy'n cefnogi materion iechyd a byw'n iach

## Grantiau ar gael

- Gall sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £2,000 y flwyddyn am hyd at tri blynedd

## Pwy all wneud cais?

- Ysgolion yn ardaloedd Awdurdod Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg yn rhedeg prosiectau i hyrwyddo addysg sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol. (E.e. clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, prosiectau garddio ac ati).
- Elusennau a grwpiau dielw sy'n gweithio **mewn partneriaeth ag ysgolion** yn yr Awdurdod Lleol yn cefnogi plant a phobl ifanc gyda phrosiectau/gweithgareddau y tu hwnt i ddarpariaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol.




N.B. Enghraifft o brosiect a **fyddai'n cyd-fynd â'r meini prawf**: Grŵp dawns ieuenctid sydd eisiau mynd i ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol i gyflwyno sesiynau blasu gyda phobl ifanc.

## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:
- ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein
- llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill
- rhaid gwario’r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig
- rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion
- cymorth ychwanegol

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.communityfoundationwales.org.uk**

## Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Ysgolion Caerdydd a'r Fro bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml- flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl a cymunedau a gyda’i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw’n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae’u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai’ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau’n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.